CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
Cadeirydd: Paul Weston
Nos Lun Hydref 5ed 2015 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau**:
2. **Presennol**: Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, a Paul Weston.
3. **Cod Ymddygiad**: Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Medi** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion**:-

   5.1. Wal terfyn o amgylch y toiledau cyhoeddus – cafwyd cadarnhad bydd Cyngor Conwy yn gyfrifol o'r gwaith os bydd difrod i wal y toiledau ac ni fydd unrhyw gyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor Cymuned nac ychwaith y ffarmwr. Bydd y peiriannau pres hefyd yn cael ei tynnu oddi yno.

   5.2. Diffibrilwyr – cafwyd ar ddeall fod cais wedi ei wneud am gymhorthdal tuag at brynu diffibrilwyr i'r pentref a hefyd fod Cyngor Conwy yn fodlon ei osod ar wal y toiledau cyhoeddus. Os bydd y cais yn llwyddiannus bydd y mater yn cael ei drafod mewn cyfarfod hwyrach ymlaen. Côst y diffib i ni fydd £400 a'r cabinet yn £300.

   5.3. Biniau Baw Cŵn – y bin yn y maes parcio oddi ar Ffordd Nebo wedi cael ei wagio. Y bin wrth y Giler Arms dal heb ei ail osod. Rydym wedi archebu bin ar gyfer Capel Bethel gan obeithio y cawn un pan fyddent yn rhannu rhai allan y flwyddyn nesaf.

   5.4. Bydd y Sgip Gymunedol ar y maes parcio dydd Sadwrn Tachwedd 14eg am 9 o'r gloch y bore.
6. **Gohebiaeth:**

   Swyddfa Archwilio Cymru – cafwyd wybod mai Cwmni BDO LLP o Southampton sydd wedi ei benodi i archwilio'r llyfrau am y tair blynedd nesaf. Mynegwyd siomiant nad cwmni o Gymru sy'n archwilio llyfrau Cynghorau Cymru. Cynigiodd Gari Jones a phawb yn gytûn fod y clerc yn anfon llythyr i'r Swyddfa Archwilio yng Nghymru yn mynegi ein pryder.
7. **Talu Anfoneb:**

   One.com –cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Edwards yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn talu'r anfoneb am y wefan am 12mis fel a ganlyn 'Web Space' £13.80 – 'Domain' £6.00 – TAW £3.96 = **£23.76** gyda siec rhif **100251**.
8. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

   Nid oedd y Cynghorydd Sirol yn bresennol.
9. **Unrhyw fater arall:**

   9.1. Zurich Municipal – Cafwyd llythyr yn ein rhybuddio bydd y IPT yn codio 6% i 9.5% o'r 1af Dachwedd 2015 ymlaen.

   9.2. Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar nos Iau 22ain Hydref 2015. Ni chafwyd enwau i fynychu'r cyfarfod.

   9.3. Biniau sbwriel wedi cael ei symud o'r ddwy arosfa ar yr A5.

   9.4. Gwydr wedi malu ar y cae chwarae hefyd y siglenni wedi cael ei lapio o amgylch y ffrâm.
10. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Tachwedd 2ail 2015 am 7.30 y.h.**

****